

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU GRŴP CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU MOROL

Cyflwyniad

Mae'r cynefin grŵp hwn yn cynnwys cymunedau clogfeini rhynglanwol, gwastadeddau llaid rhynglanwol, gwelyau morwellt, mawn a chlai wedi'u dinoethi, tywod a graean islanwol, a gwelyau cregyn gleision.

Mae ein morlin cyfan o bwys sylweddol oherwydd ei fywyd gwyllt. Mae Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn ymestyn o Ddinbych-y-pysgod yn y gorllewin bron cyn belled â Thrwyn Oxwich yn y dwyrain ac mae'n cynnwys Moryd Byrri/Aber Llchwyr a



morydau afonydd Taf–Tywi–Gwendraeth (y Tair Afon). Mae'r cynefinoedd sy'n ffurfio'r Safle Morol Ewropeaidd (EMS) yn cynnwys yr holl gynefinoedd morol sy'n destun Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac sydd wedi eu cynnwys yn ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a chynefinoedd rhydwy ac adar môr sy'n destun Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a geir o gwmpas ein harfordir.

Mae'r Safle Morol Ewropeaidd hwn yn cwmpasu tri safle Ewropeaidd dynodedig: **Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Caerfyrddin** – cafodd hon ein dynodi am fod ag enghreifftiau Ewropeaidd rhagorol o chwech o'r nodweddion cadwraeth cynefin a phump o'r nodweddion cadwraeth rhywogaeth o ddiddordeb a restrir yng Nghyfarwydddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r Undeb Ewropeaidd, e.e. gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio â dŵr môr ar y distyll (sef gwastadeddau llaid), dŵl heli Atlantig (sef morfa), morydau a herlod, dyfrgwn a llysywod pendoll.

Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Caerfyrddin – a ddynodwyd o dan Gyfarwydddeb Adar yr UE ar sail y fôr-hwyaden ddu, *Melanitta nigra*, rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

AGA a safle Ramsar Moryd Byrri – sydd yn rheolaidd yn cynnal niferoedd o bwys rhyngwladol o adar dŵr a rhydwy sy'n gaeafu yno ac yn bwydo ar y morfeydd a'r ardaloedd rhynglanwol.

Cwblhawyd cynllun rheoli drafft gweithiol i'r Safle Morol Ewropeaidd yn 2013.

Mae banciau tywod o fewn Bae Caerfyrddin yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau (yn cynnwys cregyn deuglawr, deudroediaid a mwydod), y mae llawer ohonynt yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser wedi'u claddu'n gyfangwbl neu'n rhannol yn y gwaddod. Mae'n morlin yn cynnig enghraifft o safle morydol eang ar arfordir de Cymru, gan gynnwys morydau afonydd Llchwyr, Taf, Tywi a Gwendraeth. Mae'r morydau hyn yn cynnal ystod o waddodion islanwol a rhynglanwol, yn amrywio o dywod ar yr aber i wastadeddau llaid yn rhan uchaf y foryd. Cregyn deuglawr, yn cynnwys gwelyau cocos, a geir yn bennaf ar yr ardaloedd helaeth o wastadeddau llaid

a thywod rhynglanwol. Ceir hefyd welyau o wellt-y-gamlas bach, *Zostera noltei*, sy'n brin yn genedlaethol.

Mae'r awdurdodau statudol sydd â chyfrifoldebau ar y Safle Morol Ewropeaidd, a nodir yn y Rheoliadau Cynefinoedd fel 'awdurdodau perthnasol' ac sy'n cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu cynllun rheoli i'r safleoedd hyn fel ffordd allweddol o gyflawni'u cyfrifoldebau yn deillio o'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae'r cyfan o'r traethlin rhynglanwol a'r dyfroedd mewndirol o Bont Llwehwr yn y dwyrain, hyd at ffin y sir i'r gorllewin o Bentywyn, yn cynnal diwydiant pysgota sy'n bwysig yn economaidd yn lleol ac yn darparu cyflogaeth i rai pobl leol.

Mae'r glaniadau pysgod asgellog bob blwyddyn yn gymharol fach, ond mae dwy bysgodfa pysgod cregyn sylweddol ym Moryd Byrri ac ym moryd y Tair Afon sydd wedi cynhyrchu rhwng 3000 a 10,000 tonn o gocos yn flynyddol. Caiff rhai o'r pysgod cregyn eu prosesu'n lleol ym Mhorth Tywyn neu ym Mhenclawdd (yn ardal Dinas a Sir Abertawe), ond caiff y mwyafrif helaeth o gocos a gesglir o draethau Sir Gaerfyrddin eu hallforio i farchnadoedd pysgod a gweithfeydd prosesu yn Ewrop.

Mae môr ac arfordir Sir Gaerfyrddin yn un o dirweddau diffiniol y sir, yn cyfrannu'n sylweddol i'w chymeriad cyffredinol ac yn bwysig i'n heconomi leol er mwyn denu ymwelwyr a mewnfuddsoddiad.

Manteision naturiol

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'u gwerth i'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Bwyd – drwy bysgota a dyframaeth
- Twristiaeth a hamdden
- Ailgylchu maetholion a dadelfennu gwastraff
- Storio carbon
- Creu a rheoli'r tywydd
- Treftadaeth ddiwylliannol

Pam mae cynefinoedd morol yn newid (o adroddiad *State of Nature*:

www.rspb.org.uk/stateofnature)?

- Colli cynefinoedd.
- Cynefinoedd yn diraddio.
- Gorecsbloetio.
- Llygredd a gorfaethu.
- Newid hinsawdd.
- Rhywogaethau goresgynnol.

Datganiad o weledigaeth ac amcanion

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cynllun hwn yw cynnal a gwella'r cynefinoedd hyn yn ein hamgylchedd arfordirol a'r rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw, yn enwedig o gofio'r cyd-destun – bod ein hamgylchedd morol yn ecosystem sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol. Mae codi ymwybyddiaeth o'n cynefinoedd arfordirol yn anhepgorol i weledigaeth y cynllun

hwn, drwy ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd a chyfleoedd addysg. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

- MAR1** Bod gweithgareddau'n cael eu rheoli yn y fath fodd fel na chollir ystod nac ansawdd y cynefinoedd morol amrywiol, â blaenoriaeth, ac fel bod cynnydd o ran ystod ac ansawdd cynefinoedd yn bosib.
- MAR2** Bod gweithgareddau'n cael eu rheoli yn y fath fodd fel nad ydynt yn arwain at ddirywiad pellach mewn poblogaethau, nac yn rhwystro poblogaethau na rhywogaethau morol Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth/Ad42 rhag cynyddu
- MAR3** Nodi a chofnodi ardaloedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth â blaenoriaeth o gynefinoedd morol ac arfordirol a rhywogaethau cysylltiol.
- MAR4** Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau morol/arfordirol, y pwysau a'r bygythiadau allweddol sy'n effeithio arnynt a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.

Rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth/Ad42 cysylltiol (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr):

Adar – sgiwen y Gogledd, môr-hwyaden ddu

Mamaliaid - llamhidyddion, dolffin trwyn potel, dolffin Risso, dolffin cyffredin

Ymlusgiaid – crwban môr pendew, crwban môr cefn-lledr

Pysgod - heulgi, pennog, penfras, ci glas, llymrien, corgi môr, maelgi, gwyniad môr, honos, lleden goch, morgi glas, morgath donnog, morgath styds, morgath felen, mecryll, lleden chwithig, ci pigog, marchfecryll, cragen wyntyll (cofnod hanesyddol), cocosen fawr

Crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Cynhyrchwyd cyfeiriadur o feysydd gwaith CSC a allai effeithio ar yr amgylchedd morol a nodiadau cyfarwyddyd – CBE EMS RAG* MAR4
- Trefnwyd dau ddiwrnod bioamrywiaeth forol yn harbwr Porth Tywyn MAR4
- Trefnwyd cyrchoedd glanhau traethau – Cadwch Gymru'n Daclus/Cyngor Sir Caerfyrddin MAR4
- Sesiwn addysg amgylcheddol forol gydag ysgolion Pen-bre a Phorth Tywyn – Cyngor Sir Caerfyrddin‡ MAR4
- Ymwelodd sioe deithiol *Cool Seas* y Gymdeithas Cadwraeth Forol â 5 ysgol – Cyngor Sir Caerfyrddin MAR4
- Cynhyrchwyd cynllun rheoli i Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd – CBE EMS RAG

2013

- Arddangosfa forol yn y Ganolfan Ddarganfod ar gyfer Bio Wythnos Cymru 2013 – Cyngor Sir Caerfyrddin MAR4
- Prosiect cofnodi gweithgareddau arfordirol – Gwirfoddolwr sy'n Fyfyriwr wedi bod yn treialu cofnodi yn y maes – Cyngor Sir Caerfyrddin / Grŵp Awdurdodau Perthnasol Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin MAR2/3
- Cyfrannu at fonitro nodweddion Safle Morol Ewropeaidd – Cyngor Sir Caerfyrddin/Gwirfoddol MAR4
- Canllawiau wedi'u llunio ar gyfer Cynlluniau Gweithredu - Grŵp Awdurdodau Perthnasol Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin MAR1/2

Gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol

- Hyrwyddo cynllun gweld crwbanod môr/mynd yn sownd y Gymdeithas Cadwraeth Forol – Cyngor Sir Caerfyrddin MAR4
- Hyrwyddo cynllun riportio'r Shark Trust ar gyfer codenni morgathod (pwrs y fôr-forwyn) – Cyngor Sir Caerfyrddin MAR4
- Codi ymwybyddiaeth o effaith niweidiol balŵns a llusernau ar boblogaethau crwbanod môr – Cyngor Sir Caerfyrddin MAR4
- Trefnu gweithdy ar gyfer grwpiau twristiaeth a hamdden yn y sir ar yr amgylchedd morol/arfordirol er mwyn iddynt gallu ystyried effaith gweithgareddau yma – Cyngor Sir Caerfyrddin MAR4
- Prosiect cofnodi gweithgareddau arfordirol – Cyngor Sir Caerfyrddin MAR2/4
- Hyrwyddo clirio sbwriel drwy brosiect "Pysgota am sbwriel" MAR4
- Hyrwyddo cofnodi a riportio Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol MAR4
- Hyrwyddo codau ymddygiad (e.e. i weithgareddau cychod) MAR2/4
- Hyrwyddo'r arferion gorau (e.e. o ran gwaredu crafiadau paint-rhag-tyfiant oddi ar gychod / gweddillion golchi) MAR2/4

* CBE RAG –Grŵp Awdurdodau Perthnasol Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (*Carmarthen Bay & Estuaries European Marine Sites Relevant Authorities Group*).

Dolenni defnyddiol:

www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Marine
www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/marine
www.cbeems.org.uk



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Cyngor Sir Caerfyrddin, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Clwb Adar Sir Gaerfyrddin, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gwarchod Glöynnod Byw, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, Naturiaethwyr Llanelli, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod, Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid